

LLYWODRAETH CYMRU

ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG DRAFFT

Teitl y cynnig:	Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol
Swyddog(ion) sy'n cwblhau'r Aseiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):	Mathew Xerri Polisi Diwygio Etholiadol
Adran:	Grŵp Adfer ar ôl Covid a Llywodraeth Leol Yr Is-adran Etholiadau
Pennaeth yr Is-adran/Uwch Swyddog Cyfrifol (enw):	Michael Kay
Ysgrifennydd y Cabinet/y Gweinidog sy'n gyfrifol:	Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Dyddiad Cychwyn:

Hydref 2022

CYNNWYS

Adran 1. Pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried, a pham?	4
Adran 8. Casgliad	8
Adran 9. Datganiad	15

ADRAN 1. PA GAMAU MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED, A PHAM?

Mae'r Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol yn nodi amrywiaeth o gynigion sy'n adeiladu ar fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio etholiadol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021. Dyma egwyddorion y fframwaith hwnnw:

- Tegwch:
- Hygyrchedd:
- Cyfranogiad:
- Gwella profiad dinasyddion:
- Symlwydd:
- **Uniondeb:**

Bydd y cynigion yn helpu i gyflawni ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu i:

- Ddiwygio etholiadau llywodraeth leol i leihau'r diffyg democrataidd
- Ehangu ein rhaglen Mynediad at Swydd Etholiadol.

Maent yn cynnwys cymysgedd o gynigion anneddfwriaethol i hyrwyddo ymgysylltu mewn etholiadau a sicrhau ei bod yn fwy diogel ac yn fwy syml i sefyll mewn etholiadau, cynigion ar gyfer deddfwriaeth i gydgrynhoi a moderneiddio cyfraith etholiadol y byddem yn bwriadu eu cyflwyno yn ystod y Senedd hon, a chynigion tymor hwy ar gyfer diwygio etholiadol i gefnogi democratiaeth Cymru yn y dyfodol.

Yr hirdymor

Mae'r Papur Gwyn yn ymgynghori ar gynigion penodol ar gyfer y tymor byr i'r tymor canolig, o fewn cyd-destun gweledigaeth tymor hwy. Mae hyn hefyd yn ystyried tueddiadau yn y tymor hwy, fel gwahaniaeth yn y ffordd y bydd etholiadau a gedwir yn ôl ac etholiadau datganoledig yn cael eu cynnal. Mae rhai o'r meysydd i'w hystyried yn y tymor hwy yn cynnwys:

- Etholfreinio rhai carcharorion o Gymru
- Cyfnerthu'r gyfraith ar gyfer hygyrchedd a symlwydd
- Pleidleisio electronig o bell / pleidleisio absennol ar-lein
- Parhau i hyrwyddo amrywiaeth mewn democratiaeth
- Cronfa ddata Cymru gyfan o ddata cofrestru etholiadol
- Monitro effaith deddfwriaeth bresennol, gan gynnwys cyd-ddigwyddiad neu gyfuniad o etholiadau, print digidol ar gyfer deunydd ymgyrchu digidol ac enwebiadau ar-lein

Atal

Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn yn ceisio ategu cydlyniant cymdeithasol-gymunedol drwy alluogi mwy o bobl i ymwneud â democratiaeth, fel pleidleiswyr ac ymgeiswyr. Bydd cynigion i gryfhau iechyd democrataidd yn helpu i fynd i'r afael â'r diffyg democrataidd ac yn lleihau'r anghydraddoldebau presennol o ran cyfranogiad democrataidd ac yn ceisio atal unrhyw anghydraddoldebau rhag lledu.

Integreiddio

Bwriad y cynigion yn y Papur Gwyn yw cyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddiwygio etholiadau llywodraeth leol i leihau'r diffyg democrataidd ac i wneud gwelliannau i etholiadau'r Senedd. Mae nifer o ryngddibyniaethau gyda Bil Diwygio'r Senedd ac mae swyddogion yn cydweithio mewn ffordd integredig ar y meysydd hynny.

Mae'r nod cyffredinol o wella democratiaeth a mynd i'r afael â'r diffyg democrataidd a llawer o gynigion penodol yn y Papur Gwyn yn cyd-fynd yn glir â phedwar o'r saith nod llesiant:

- Cymru lewyrchus – Er enghraifft, creu nifer fach o swyddi drwy'r Bwrdd Rheoli Etholiadol a chyd-fynd â nodau'r cwricwlwm cenedlaethol newydd, yn enwedig helpu dysgwyr i ystyried effaith eu gweithredoedd wrth arfer eu hawliau a'u cyfrifoldebau democrataidd. Hefyd, datblygu dysgwyr fel dinasyddion byd-eang hunanymwybodol, gwybodus ac egwyddorol.
- Cymru sy'n fwy cyfartal – Er enghraifft, cynigion i wella hygyrchedd ac amrywiaeth, i bleidleiswyr ac i ymgeiswyr
- Cymru o gymunedau cydlynus – Bydd llawer o'r cynigion yn cefnogi gwell cyfranogiad mewn democratiaeth ac ymgysylltiad pobl â'u cymunedau lleol
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – gan gynnwys ystyried gofynion y Gymraeg ar gyfer Swyddogion Canlyniadau mewn etholiadau

Cydweithio

Rydym wedi ymgysylltu'n helaeth â chydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru a phartneriaid a rhanddeiliaid allanol perthnasol er mwyn datblygu'r cynigion hyn. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, y Comisiwn Etholiadol, llywodraethau eraill y Deyrnas Unedig a sefydliadau trydydd sector.

Cynnwys

Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn wedi cael eu siapio drwy ymgysylltu'n helaeth â'r sector etholiadol, rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Maent hefyd yn adeiladu ar ymgysylltu blaenorol dros nifer o flynyddoedd, gan gynnwys ein hymgyngoriad yn 2017, "Diwygio Etholiadol mewn Llywodraeth Leol Cymru" a gweithredu Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi hynny.

Mae'r ymgynghoriad Papur Gwyn yn cynnig cyfle i barhau â'r sgwrs gyda phobl Cymru am ddyfodol etholiadau. Er mwyn sicrhau ymgysylltiad eang, byddwn yn cyhoeddi fersiwn Hawdd ei Ddarllen a fersiwn i bobl ifanc o'r Papur Gwyn.

Yn ogystal â'r broses ymgynghori ffurfiol, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu'r cynigion ymhellach, gan gynnwys drwy weithgorau a grwpiau cyfeirio penodol.

Bydd angen ymgysylltu â phleidiau gwleidyddol lle bydd polisiau'n effeithio ar y ffordd y caiff ymgeiswyr eu trin neu lle gwneir newidiadau i'r rheolau sy'n llywodraethu pleidiau gwleidyddol a'u gweithgareddau ymgyrchu. Byddwn hefyd yn gweithio gyda gweinyddwyr etholiadol i ddylunio a phrofi newidiadau i brosesau etholiadol. Bydd y Comisiwn Etholiadol a Chymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol yn bartneriaid allweddol o ran cefnogi'r gwaith hwn, ac mae gennym berthynas waith dda â nhw.

Effaith

Bydd y cynigion yn y Papur Gwyn yn cyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddiwygio etholiadau llywodraeth leol i leihau'r diffyg democrataidd. Maent hefyd yn ategu nod Cenedlaethau'r Dyfodol o Gymru fwy cyfartal, gyda'r bwriad o wneud democratiaeth a phleidleisio yn fwy hygyrch i bob aelod o'n cymdeithas ac annog cyfranogiad gweithredol ym mywyd democrataidd Cymru. Bydd ein diwygiadau yn helpu pobl i fod yn fwy gweithgar, i ymgysylltu â dinasyddion ac, wrth wneud hynny, cyfrannu at well canlyniadau economaidd-gymdeithasol. Mae'r Papur Gwyn yn cyfleu neges gref am ein hymrwymiad i ddiwygio etholiadol a moderneiddio gweinyddiaeth etholiadau yng Nghymru. Mae'r cynigion yn dangos sylfaen ein rhaglen diwygio etholiadol i'r gymuned etholiadol yng Nghymru, yn ogystal â'r ethos rydym yn disgwyl iddo fod yn sail i waith etholiadol ar lefel leol. Byddai'n anfon neges uniongyrchol bod gan Lywodraeth Cymru agenda eang, gydlynol ac uchelgeisiol yr ydym eisiau ei chyflawni mewn partneriaeth â llywodraeth leol.

Bydd cynigion penodol yn gwella gweinyddiaeth etholiadau datganoledig, yn defnyddio technoleg newydd ac yn ei gwneud yn haws i bleidleiswyr ac ymgeiswyr gymryd rhan mewn democratiaeth. Bydd effeithiau trosiannol, felly bydd angen ymgyrchoedd cyfathrebu ac ymwybyddiaeth i roi

gwybod i etholwyr am newidiadau i brosesau o ran y ffordd maent yn pleidleisio neu'n cael eu cynrychioli.

Pwrpas yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yw edrych ar effeithiau cynigion ymhellach gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid fel sail i'w datblygiad.

Costau ac Arbedion

Mae costau ac arbedion cynigion deddfwriaethol yn y Papur Gwyn wedi eu nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft. Nid yw'n bosibl amcangyfrif costau a buddion â gwerth ariannol ar gyfer yr holl gynigion ar hyn o bryd. Bydd yr ymgynghoriad yn helpu i ganfod ffynonellau gwybodaeth a thystiolaeth ychwanegol ac amgen i ategu'r gwaith o asesu costau a buddion wrth i'r cynigion gael eu datblygu ymhellach.

Mecanwaith

Mae'r Papur Gwyn yn nodi amrywiaeth o gynigion deddfwriaethol ac anneddfwriaethol a chwestiynau mwy agored i ategu'r gwaith o ddatblygu polisi yn y tymor hwy i leihau'r diffyg democrataidd yng Nghymru.

ADRAN 8. CASGLIAD

8.1 Sut mae'r bobl sydd fwyaf tebygol o deimlo effeithiau'r cynnig wedi bod yn rhan o'r gwaith o'i ddatblygu?

Mae'r Papur Gwyn wedi cael ei lywio gan ymgysylltu, ymgynghori a chydweithio helaeth yn y gorffennol ar ddatblygu deddfwriaeth flaenorol.

Rydym wedi cwrdd ag amrywiaeth o randdeiliaid allweddol, sydd wedi helpu i lywio'r cynigion, gan gynnwys:

- Awdurdodau lleol
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol
- Y Comisiwn Etholiadol
- Llywodraethau eraill y Deyrnas Unedig
- RNIB
- Un Llais Cymru
- Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru
- Sefydliadau trydydd sector
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
- Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol.

Mae'r ymgynghoriad Papur Gwyn yn cynnig cyfle i barhau â'r sgwrs gyda phobl Cymru am ddyfodol etholiadau. Er mwyn sicrhau ymgysylltiad eang, byddwn yn cyhoeddi fersiwn Hawdd ei Ddarllen a fersiwn i bobl ifanc o'r Papur Gwyn.

Yn ogystal â'r broses ymgynghori ffurfiol, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu'r cynigion ymhellach, gan gynnwys drwy weithgorau penodol a grwpiau cyfeirio.

Rydym wedi ymgysylltu â'r canlynol a byddwn yn parhau i ymgysylltu â nhw:

- Plant a phobl ifanc a'u cynrychiolwyr

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r bartneriaeth a sefydlwyd yn 2021 i annog pobl ifanc i gofrestru i bleidleisio. Mae'r bartneriaeth hon yn gyfle i weithio gyda nifer fawr o grwpiau ledled Cymru, a'i

nod yw cefnogi pobl ifanc i ymgysylltu â democratiaeth a meithrin hyder i gymryd rhan mewn etholiadau.

- Pobl â nodweddion gwarchoddedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Rydym wedi ymgysylltu â'r RNIB a grwpiau anabledd eraill i ddatblygu cynigion mewn perthynas â hygyrchedd. Byddwn yn parhau â hyn ac yn ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl anabl, drwy'r Tasglu Hawliau Anabledd i sicrhau ein bod ni'n ymgysylltu â phobl anabl.

Y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig – rydym wedi ymgysylltu â nifer o grwpiau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchoddedig yn ein gwaith casglu tystiolaeth ac ymchwil i ddatblygu cynigion i ymestyn y Gronfa.

- Siaradwyr Cymraeg a grwpiau arbenigol ar y Gymraeg

Byddwn yn ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg ac yn cymryd cyngor ganddo ar grwpiau Cymraeg eraill i ymgysylltu â nhw.

- Pobl eraill y gallai'r cynnig effeithio arnynt.

Byddwn yn defnyddio cyfryngau a rhwydweithiau cyfathrebu i ledaenu'r ymgynghoriad mor eang â phosibl er mwyn cael amrywiaeth eang o safbwyntiau gan bobl y gallai hyn effeithio arnynt.

8.2 Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol – cadarnhaol a negyddol?

Mae effeithiau cadarnhaol mwyaf arwyddocaol y cynigion yn cyd-fynd yn fras â'r themâu allweddol canlynol:

- gwneud democratiaeth a phleidleisio yn fwy hygyrch i bob aelod o'n cymdeithas ac annog cyfranogiad gweithredol ym mywyd democrataidd Cymru
- helpu pobl i fod yn fwy gweithgar, i ymgysylltu â dinasyddion ac wrth wneud hynny cyfrannu at well canlyniadau economaidd-gymdeithasol
- moderneiddio gweinyddiaeth etholiadau yng Nghymru
- gwella'r defnydd o dechnoleg i'w gwneud yn haws i bleidleiswyr ac ymgeiswyr gymryd rhan mewn democratiaeth

Yr effeithiau negyddol mwyaf arwyddocaol fydd costau gweinyddol a chostau cydymffurfio, yn enwedig i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ychwanegol i lywodraeth leol ar gyfer unrhyw faich newydd sy'n deillio o gynigion a gyflwynir yn y Papur Gwyn. Mae costau a buddion ariannol wedi eu nodi mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar wahân.

Llesiant cymdeithasol

Rydym yn disgwyl i'r cynigion gael effaith gadarnhaol ar bobl a chymunedau, drwy gefnogi pobl i gymryd rhan lawn yn ein democratiaeth fywiog.

Bydd cynigion yn sicrhau gwybodaeth fwy hygyrch i bleidleiswyr ac yn helpu i chwalu'r rhwystrau mae pobl anabl yn eu hwynebu o ran gallu pleidleisio'n annibynnol ac yn gyfrinachol. Datblygir y cynigion hyn yn unol â'r Model Cymdeithasol o Anabledd.

Pwrpas sylfaenol y cynnig i gofrestru'n awtomatig yw ei gwneud mor hawdd â phosibl i etholwr fod ar y gofrestr etholiadol. Rydyn ni'n cynnig rhoi mesurau lliniaru ar waith i sicrhau bod y grwpiau hynny nad ydynt bob amser yn cael eu cynnwys mewn setiau data sy'n cael eu casglu'n rheolaidd, yn cael eu nodi a'u cofrestru gan ddefnyddio dulliau wedi eu teilwra (swyddogion ymgysylltu â'r gymuned, er enghraifft).

Mae sylfaen unrhyw ddemocratiaeth yn cynnwys ffiniau etholiadol teg ac annibynnol, gan greu wardiau etholiadol, fel bod gan bob cymuned gynrychiolaeth deg a chyfartal. Mae'r Papur Gwyn yn cynnig nifer o welliannau i'r broses adolygu etholiadol a chymunedol sy'n ategu'r nod o lywodraeth leol effeithiol a chyfleus yn well.

Gallai cynigion ar gyfer arloesi digidol gael effaith gadarnhaol ar bleidleiswyr ac ar gynhwysiant democrataidd yng Nghymru drwy gefnogi mwy o hyblygrwydd ar gyfer pleidleisio a gwella hyder y cyhoedd yn y broses pleidleisio drwy'r post.

Hawliau Plant

Mae sicrhau bod pobl ifanc ar y gofrestr etholiadol yn ddatblygiad pwysig i wireddu potensial ymestyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 ac 17 oed. Bydd darpariaethau i orfodi cofrestru awtomatig yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddefnyddio data lleol (gan gynnwys data addysg) i sicrhau bod cynifer o bobl ifanc â phosibl yn cael eu cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau datganoledig ac yn cael eu galluogi i arfer eu hawl i bleidleisio.

Cydraddoldeb

Yn ogystal â'r cynigion hygyrchedd sydd eisoes wedi eu crybwyll uchod, mae'r Papur Gwyn yn cynnig amrywiaeth o fesurau i ddiogelu ymgeiswyr a fyddai'n helpu i sicrhau bod amrywiaeth ehangach a mwy amrywiol o ymgeiswyr yn sefyll ar gyfer etholiadau, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchoddedig. Byddai'r cynigion i gryfhau'r Gronfa Mynediad i Swydd Etholiadol hefyd yn ategu'r nod hwn.

Prawfesur Polisiâu o safbwynt Anghenion Cefn Gwlad

Nid yw'r cynigion yn debygol o gael effaith sylweddol ar bobl a chymunedau gwledig yn benodol, ond gallai cynigion yn y meysydd a ganlyn gael rhywfaint o effaith gadarnhaol ar gymunedau gwledig:

- Newidiadau i'r trefniadau ar gyfer adolygiadau etholiadol a chymunedol
- Pleidleisio hyblyg
- Ystyried gofynion o ran y Gymraeg ar gyfer Swyddogion Canlyniadau

Preifatrwydd

Mae llawer o'r cynigion yn debygol o effeithio ar breifatrwydd, yn enwedig mewn perthynas â chynigion ynghylch cofrestru pleidleiswyr, yr arolwg ymgeiswyr ac arloesi digidol.

Llesiant diwylliannol a'r Gymraeg

Un maes penodol o'r Papur Gwyn sy'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg yw'r cynnig i archwilio gofynion sy'n ymwneud â'r Gymraeg ar gyfer Swyddogion Canlyniadau. Mae hyn yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar bobl sy'n siarad Cymraeg yn cymryd rhan mewn etholiadau.

Maes arall lle gellid cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg yw'r cynigion i ddiwygio'r modd y cynhelir adolygiadau etholiadol a chymunedol er mwyn rhoi ystyriaeth ac ymgynghori'n benodol ac yn gynharach â'r cyhoedd a rhanddeiliaid ynghylch enwau Cymraeg a Saesneg wardiau a chymunedau.

Llesiant economaidd

Rydym wedi gwneud asesiad cychwynnol o gostau a manteision economaidd cynigion deddfwriaethol yn y Papur Gwyn mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar wahân. Bydd hyn yn cael ei fireinio wrth i'r cynigion gael eu datblygu yn dilyn ymgynghoriad. Bydd hyn yn cynnwys asesiad cystadleuaeth.

Busnes, y cyhoedd ac unigolion

Bydd llawer o gynigion y Papur Gwyn yn cael effeithiau cadarnhaol.

Bydd y cynigion i wella'r Gronfa Mynediad i Swydd Etholiadol yn cefnogi unigolion o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli i sefyll mewn etholiadau llywodraeth leol.

Fel rhan o'r gwaith o foderneiddio prosesau etholiadau Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar gyflwyno amrywiaeth o ddatblygiadau digidol newydd.

Bydd effeithiau ar gyflenwyr busnes sy'n ymwneud â'r meysydd hyn. Byddwn yn ystyried yr effeithiau gyda rhanddeiliaid wrth i ddewisiadau cyflawni posibl gael eu datblygu ymhellach yn dilyn yr ymgynghoriad.

Bydd y cynigion sy'n ymwneud â chyllid ymgyrchu, treuliau a gwariant pleidiau gwleidyddol yn cael effaith ar bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr unigol, a byddwn yn ystyried yr effeithiau'n llawn wrth i'r cynigion gael eu datblygu ar ôl ymgynghori.

Bydd ystyried ailddatgan yr etholfraint a diweddarau'r etholfraint a diweddarau'r hawliau etholfraint ac ymgeisyddiaeth ar gyfer dinasyddion yr UE gan fod y DU wedi gadael yr UE yn cael effaith gadarnhaol o sicrhau eglurder i unigolion yn ogystal ag i gyrff y sector cyhoeddus.

Y Sector Cyhoeddus, gan gynnwys llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill

Mae'r rhan fwyaf o'r cynigion yn y Papur Gwyn yn debygol o gael effaith ar y sector cyhoeddus, yn enwedig awdurdodau lleol. Yn ogystal, y Comisiwn Etholiadol, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru a'r Panel Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol. Mae rhai o'r prif effeithiau wedi eu nodi yma. Mae costau a manteision economaidd cynigion deddfwriaethol yn cael eu hasesu ar wahân yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft.

Bydd cofrestru awtomatig yn cael effaith sylweddol ar lywodraeth leol, gyda mwy o angen am weinyddiaeth etholiadol ac ymgysylltu ag etholwyr. Er ei bod yn debygol y byddai hyn yn galw am adnoddau ychwanegol yn y tymor byr, dylai'r polisi arwain at gasglu data'n well a gwella cyflawnder y gofrestr etholiadol.

Rydym yn disgwyl y byddai'r cynigion ar gyfer Bwrdd Rheoli Etholiadol yn cael effaith gadarnhaol ar lywodraeth leol drwy gydlynu etholiadau'n well, mwy o gydweithio rhwng partneriaid allweddol a chymorth gan gymheiriaid i weinyddwyr, a chynghor ymarferol ar weithredu canllawiau a deddfwriaeth. Gallai'r Comisiwn Etholiadol arbed costau o bosibl, sydd ar hyn o bryd yn gweithredu Bwrdd Cydgysylltu Etholiadol Cymru (WECB) yn wirfoddol.

Bydd cyflwyno atebion digidol yn effeithio ar awdurdodau lleol. Gallai llawer o'r datblygiadau arloesol digidol sy'n cael eu hystyried leihau'r baich gweinyddol sydd ar Awdurdodau Lleol wrth gynnal etholiadau. Petai'n cael ei gyflwyno, gallai pleidleisio hyblyg arwain at effeithiau

cadarnhaol i bleidleiswyr, a byddai effeithiau negyddol i awdurdodau lleol, gan gynnwys cost ychwanegol a chymhlethdod y gweinyddu. Byddai cymhlethdodau ychwanegol i dimau etholiadau pe bai trefniadau gwahanol ar waith ar gyfer etholiadau datganoledig ac etholiadau a gedwir - er enghraifft, mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, sy'n aml yn cael eu cyfuno.

Bydd y cynigion ar gyfer newidiadau i'r trefniadau ar gyfer adolygiadau etholiadol a chymunedol a throsglwyddo swyddogaethau o'r Panel Taliadau Annibynnol yn effeithio ar Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru a'r Panel Taliadau Annibynnol.

Trydydd Sector

Nid yw'r cynigion yn y Papur Gwyn yn debygol o gael effaith sylweddol ar fudiadau'r trydydd sector.

Cyfiawnder

Byddwn yn cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder ar gyfer unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol a fydd yn deillio o ymgynghoriad y papur gwyn.

Llesiant Amgylcheddol

Nid yw'n debygol y bydd y cynigion hyn yn cael unrhyw effaith amgylcheddol sylweddol.

Adnoddau Naturiol

Bydd llawer o'r cynigion ym mhennod 4 y Papur Gwyn – Cryfhau Gweinyddiaeth Etholiadol – yn helpu i ategu'r Flaenoriaeth Genedlaethol *Mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar leoedd* yn y Polisi Adnoddau Naturiol. Gwneir hyn drwy gefnogi cydlyniant cymunedol a sicrhau cyflogaeth sefydlog. Yn benodol, bydd cynigion hygyrchedd, yn unol â'r Model Cymdeithasol o Anabledd, yn cefnogi cydlyniant cymunedol. Byddai'r cynnig i sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol fel corff cyhoeddus yn creu nifer fach o swyddi, gan helpu i gefnogi cyflogaeth ddiogel a sefydlog.

Bioamrywiaeth

Byddwn yn ystyried Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth ar gyfer unrhyw gynnig cadarn a fydd yn deillio o'r ymgynghoriad. Un maes posibl penodol fyddai'r cynnig ar gyfer sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol, o ran caffael eiddo a sicrhau nad oes unrhyw effaith negyddol ar fioamrywiaeth.

Anfantais economaidd-gymdeithasol

Rydym yn disgwyl y bydd nifer o gynigion yn y Papur Gwyn yn ategu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, drwy fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, gan gynnwys y canlynol:

Newidiadau i adolygiadau etholiadol a chymunedol

Fel rhan o'r gwelliannau i'r broses hon, cynigir bod y Comisiwn yn ystyried, ymysg pethau eraill, agweddau economaidd-gymdeithasol ar gyfansoddiad cymunedau. Mae'n bwysig sicrhau bod cymunedau'n gallu cael mynediad at eu cynrychiolwyr lleol beth bynnag fo'u hamgylchiadau economaidd.

Gwybodaeth hygyrch i bleidleiswyr a Gwella hygyrchedd y broses etholiadol ar gyfer pobl heb gynrychiolaeth ddigonol

Mae'r Papur Gwyn yn ymgynghori ar gynigion i ddarparu gwybodaeth fwy hygyrch ac i ystyried ffyrdd o chwalu'r rhwystrau sy'n atal pobl anabl rhag pleidleisio'n annibynnol ac yn gyfrinachol. Disgwylir i hyn helpu i wella dealltwriaeth a chyfranogiad pobl anabl a phobl eraill sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol mewn etholiadau.

Y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig

Gallai'r cynigion i wella gweithrediad y gronfa helpu i wella amrywiaeth ymysg swyddogion etholedig, yn enwedig o blith grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, a fyddai'n cynnwys pobl sydd ag anfanteision economaidd-gymdeithasol.

Asesiadau effaith penodol

Yn dilyn yr ymgynghoriad, rydym yn disgwyl y byddwn yn cynnal yr asesiadau penodol llawn a ganlyn wrth i gynigion gael eu datblygu ymhellach:

Hawliau Plant

Cydraddoldeb

Dyletswydd economaidd-gymdeithasol

Prawfesur Polisiâu o safbwynt Anghenion Cefn Gwlad

Preifatrwydd

Y Gymraeg

Economaidd / Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Cyfiawnder

Bioamrywiaeth

Y nodau llesiant

Mae alinio â'r nodau llesiant wedi ei nodi yn adran 1.

8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:

- yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,
- yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Mae'r ymgynghoriad yn cynnig cyfle i brofi rhagdybiaethau'r effeithiau a nodir yn yr asesiad hwn. Rydym yn gobeithio nodi effeithiau eraill y gallwn eu hystyried ymhellach wrth i ni ddatblygu'r cynigion a llunio mesurau lliniaru ar gyfer effeithiau negyddol.

Byddwn yn defnyddio'r asesiadau a nodir yma a rhagor o asesiadau i helpu i sicrhau bod modd cyflawni cynigion sy'n deillio o'r ymgynghoriad yn y ffordd orau er mwyn sicrhau'r llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd gorau posibl yng Nghymru.

Rydym wedi nodi effeithiau allweddol y cynigion uchod, sy'n gadarnhaol ar y cyfan, gan gynnwys alinio â'r nodau llesiant. Ar gyfer y prif effeithiau negyddol o ran cost, byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i fwrw ymlaen â chynigion yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol. Er enghraifft, rydym

yn cynnig cynlluniau peilot i bennu'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflwyno cofrestru awtomatig cyn cyflwyno hyn yn genedlaethol.

Mae nifer o ryngddibyniaethau gyda Bil Diwygio'r Senedd ac mae swyddogion yn cydweithio ar y meysydd hynny. Byddwn yn gweithio'n agos i sicrhau bod modd cyflawni unrhyw ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r Papur Gwyn mewn ffordd integredig gyda'r Bil hwnnw, gan gynnwys darparu cymorth mewn ffordd gydgyssylltiedig i awdurdodau lleol a phartneriaid eraill ar gyfer swyddogaethau a gofynion newydd.

8.4 Sut bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth i'r cynnig ddatblygu, ac ar ôl iddo ddod i ben?

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r holl randdeiliaid allweddol i gynllunio a datblygu dull o fonitro effaith y cynigion, wrth iddynt gael eu datblygu ymhellach, gan gynnwys adolygiad ôl-weithredu, wrth i ddeddfwriaeth gael ei datblygu, yn dilyn ymgynghoriad ar y Papur Gwyn. Bydd hyn yn cael ei lywio gan y dull a ddefnyddir i adolygu'r broses o weithredu deddfwriaeth etholiadol ddiweddar arall, fel Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

ADRAN 9. DATGANIAD

Datganiad

Rwyf yn fodlon bod effaith y cam arfaethedig wedi cael ei hasesu a'i chofnodi'n ddigonol.

Enw'r Uwch Swyddog Cyfrifol / Dirprwy Gyfarwyddwr:

Michael Kay

Yr Is-adran Etholiadau

Adran:

Grŵp Adfer ar ôl Covid a Llywodraeth Leol

Dyddiad:

02/09/2022